Estyn




# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gyfun Penweddig

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae gofalu am les disgyblion yn cael lle blaenllaw yn Ysgol Gyfun Penweddig. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos parch at ei gilydd ac agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn gaffaeliad i'r ysgol, gan fodelu ymddygiadau ac agweddau cadarnhaol iawn i ddisgyblion iau. Mae trefniadau cadarn i fonitro a hybu presenoldeb disgyblion wedi arwain at welliannau sylweddol.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o'u pwnc ac yn gwneud cynnydd cadarn. Mae ychydig o athrawon yn gwneud hynny'n arbennig o effeithiol gan ysbrydoli'r disgyblion a chynllunio'n ofalus ar gyfer ymateb i'w hanghenion. Yn yr ychydig o achosion ble nad yw'r addysgu yn effeithiol, nid yw disgwyliadau na lefel yr her i ddisgyblion yn addas ac felly nid ydynt yn gwneud cystal cynnydd ac maent yn tueddu i golli ffocws ar eu gwaith.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd ddigidol dros amser. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm wedi ei chydlynu'n ddigon da i sicrhau bod cyfleoedd priodol i ddatblygu'r medrau hyn yn gynyddol.

Er y cyfnod o ansefydlogrwydd yn yr arweinyddiaeth dros y blynyddoedd diwethaf, mae uwch arweinwyr, trwy eu teyrngarwch a'u dyfalbarhad, wedi llwyddo i gynnal safonau cyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae hyn wedi rhoi sylfaen gadarn i'r pennaeth newydd wrth gychwyn ei waith. Mae gweledigaeth y pennaeth o feithrin parch, Cymreictod ac ymdrech yn treiddio trwy holl waith yr ysgol. Mewn amser byr, mae wedi llwyddo i greu cysylltiadau buddiol â rhieni, magu hyder yn y staff a sicrhau bod uwch arweinwyr yn weledol i ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn adnabod prif gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn briodol ar sail gweithgareddau buddiol i werthuso'r ddarpariaeth. Serch hynny, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn gwerthuso eu gwaith yn ôl yr effaith a gaiff ar safonau a chyflawniad disgyblion yn ddigonol. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu mesur llwyddiant yn llawn nac, yn ei dro, gynllunio'n ddigon manwl ar gyfer gwelliant.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 3 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

**A1 Gwella agweddau o addysgu er mwyn codi disgwyliadau a lefel yr her a diwallu anghenion pob disgybl**

**A2 Cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm fel bod disgyblion yn gwneud cynnydd parhaus**

**A3 Sicrhau bod arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn ôl ei effaith ar safonau disgyblion**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/12/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.